

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Adeiladau

Mawrth 2022



1. Cefndir

Bil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Adeiladau¹ (y Bil) gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2021. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.
2. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 19 Ionawr 2022, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Ionawr. Daeth y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi i ben ar 2 Mawrth 2022. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd wedi'i gyhoeddi eto.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Rhif 2 Llywodraeth Cymru

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
4. Ar 19 Gorffennaf 2021 gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) gerbron y Senedd² mewn perthynas â'r Bil. Ar 21 Medi 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol³ (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil.
5. Roedd paragraffau 13 i 93 o'r Memorandwm, a pharagraffau 11 i 33 o Femorandwm Rhif 2, yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru, ar y pryd, o'r darpariaethau yn y Bil yr oedd yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef cymalau 1, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42 (ac Atodlen 4), 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 54 (ac Atodlen 5), 55 (ac Atodlen 6), 56, 125, 126, 134, 142, 143, 144, a 146.⁴

¹ y Bil Diogelwch Adeiladau, fel y'i cyflwynwyd (Bill 139)

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelwch Adeiladau, Gorffennaf 2021

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) y Bil Diogelwch Adeiladau, Medi 2021

⁴ Mae rhifau cymalau yn cyfeirio at y fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2021.

6. Mae paragraffau 94 i 109 o'r Memorandwm, a pharagraffau 34 i 39 o Femorandwm Rhif 2, yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil ar y pryd. Yn y Memorandwm, daeth y Gweinidog i'r casgliad ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil.⁵

Crynodeb o'n hadroddiad cyntaf

7. Cyflwynwyd adroddiad gennym ar y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 (adroddiad cyntaf) ar 10 Rhagfyr 2021.⁶

8. Mae paragraffau 18 i 59 yn ein hadroddiad cyntaf yn nodi'n fanwl ein hystyriaeth o'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.

9. Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom gydnabod y gwahaniaeth mewn safbwyntiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymalau (ac Atodlenni) y Bil y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

10. Gwnaethom nodi bod 16 o'r cymalau yr oedd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau newydd.

11. At hynny, gwnaethom drafod, yn fanwl, ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddeddfu ar gyfer Cymru yn y maes datganoledig hwn, capasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu ei hun, hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, a chyflawnrwydd gwybodaeth a chyfleoedd craffu i'r Senedd.

12. Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys cyfanswm o 4 casgliad ffurfiol a 5 argymhelliad.

13. Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad cyntaf ar 4 Ionawr 2022.⁷

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3)

Memorandwm Rhif 3

14. Ar 20 Ionawr 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ychwanegol gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 3⁸) mewn perthynas â gwelliannau a

⁵ Memorandwm, paragraff 109. Gweler hefyd Femorandwm Rhif 2, paragraffau 37-39

⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Adeiladau, Rhagfyr 2021

⁷ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 4 Ionawr 2022

⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) y Bil Diogelwch Adeiladau, Ionawr 2022

gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Ionawr 2022 ac a gytunwyd wedyn ar 19 Ionawr. Mae rhifau cymalau (ac Atodlenni) y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.⁹

Newidiadau i'r Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer ers cyhoeddi'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2

15. Mae paragraffau 12 i 55 ym Memorandwm Rhif 3 yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 2, ac yn cynnwys safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Newidiadau i'r darpariaethau yn y Bil sy'n diwygio *Deddf Mangreoedd Diffygiol 1972*

Cymal 128: Cyfnodau cyfyngiadau

16. Mae cymal 128 (cymal 126 gynt) yn ymwneud â chyfnodau cyfyngiadau.

17. Fel y nodir yn y Memorandwm, gwnaeth y Bil fel y'i cyflwynwyd newidiadau i ymestyn y cyfnod cyfyngiadau mewn perthynas â chamau gweithredu o dan *Ddeddf Mangreoedd Diffygiol 1972* ac adran 38 o *Ddeddf Adeiladau 1984* ("Deddf 1984") sydd eto i'w chychwyn, o'r chwe blynedd bresennol i 15 mlynedd.

18. Mae paragraffau 8, 12, 16 i 18, a 49 ym Memorandwm Rhif 3 yn rhoi manylion am y diwygiadau i gymal 128 a sefyllfa gyfatebol Llywodraeth Cymru.

19. Mae diwygiadau a wneir i gymal 128 bellach yn darparu ar gyfer cyfnod cyfyngu o 30 mlynedd, yn hytrach na chyfnod o 15 mlynedd y darperir ar ei gyfer yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.

Rhesymau dros ddiwygio'r darpariaethau yn y Bil sy'n diwygio *Deddf Mangreoedd Diffygiol 1972*

20. Ym mharagraff 49 o Memorandwm Rhif 3 mae'r Gweinidog yn esbonio pam mae darpariaethau *Deddf Mangreoedd Diffygiol* yn y Bil yn cael eu diwygio, ac yn nodi bod y cyfnod o 30 mlynedd yn cyd-fynd â mwy o ddefnydd o gladin a threfniadau lesddaliad ar anheddau, ac yn darparu cyfnod hwy pan gaiff person hawlio, "gan wella'r broses gwneud iawn i berchnogion a lesddeiliaid".

⁹ Bil Diogelwch Adeiladau, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor (Bil 177)

Newidiadau i'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r cynllun ombwdsmon cartrefi newydd

Cymal 129: Sefydlu'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd

21. Mae cymal 129 yn gymal galluogi sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud trefniadau ar gyfer cynllun gwneud iawn, sy'n cael ei alw'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd.

22. Pan gafodd ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin, roedd y cymal hwn o'r Mesur yn gwneud darpariaeth ar gyfer Lloegr yn unig.

23. Mae paragraffau 13 i 15, a 19 i 22 ym Memorandwm Rhif 3 yn rhoi manylion am y diwygiadau i gymal 129 a sefyllfa gyfatebol Llywodraeth Cymru.

24. Ym mharagraff 22 o Femorandwm Rhif 3 mae'r Gweinidog yn nodi:

"Mae'r gwelliannau a gyflwynir i gymal 129 yn golygu y bydd y cynllun ombwdsmon cartrefi newydd yn gymwys yng Nghymru (ac yn yr Alban) yn hytrach na dim ond yn Lloegr (Gwelliant 44) ac maent hefyd yn mewnosod cymal 129(4)(a) newydd (Gwelliant 45) sy'n darparu bod yn rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud trefniadau ar gyfer y cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd."

Cymal 130, Atodlen 8 ac amserlen newydd: Y cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd

25. Mae cymal 130 yn ymwneud â'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd.

26. Mae paragraffau 23 i 25 a 40 i 41 ym Memorandwm Rhif 3 yn rhoi manylion o ran diwygiadau i'r cymal ac i Atodlen 8, a chyflwyno atodlen newydd.

27. Mae cymal 130 yn darparu bod yn rhaid i aelodaeth o'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd fod yn agored i bob 'datblygwr', ac y bydd y cynllun yn galluogi 'perchnogion perthnasol' cartrefi a adeiladwyd o'r newydd i wneud cwynion yn erbyn aelodau'r cynllun, a fydd yn destun ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd.

28. Ym mharagraff 25 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn nodi bod diwygiad i gymal 130 yn dileu'r cyfeiriad at "in England" fel y gellir gwneud cwynion o dan y cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd gan berchnogion perthnasol yng Nghymru (a'r Alban).

29. Mae paragraff 40 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi manylion diwygiad i Atodlen 8 sy'n golygu, pan fo'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn cael ei gynnal gan rywun heblaw'r

Ysgrifennydd Gwladol, bod yn rhaid i'r cynllun gynnwys darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru (a'r Alban).

30. Ychwanegwyd atodlen newydd hefyd at y Bil yn ystod y cyfnod Adrodd sy'n darparu ar gyfer nifer o ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn galluogi gweithio ar y cyd â'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd. Ym mharagraff 41 o Femorandwm Rhif 3 mae'r Gweinidog yn nodi:

"Mae'r atodlen yn cynnwys paragraff newydd a fydd yn diwygio Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 drwy ychwanegu'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd at y rhestr o ombwdsmon yn adran 65(7) o'r Ddeddf honno i hwyluso ymgynghori a chydweithredu rhwng yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru."

Cymal 131 a chymal newydd: Diffiniadau o dermau sy'n gysylltiedig â darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd

31. Mae cymal 131 yn darparu diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y darpariaethau'n ymwneud â'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn y Bil, megis "perchennog perthnasol", "cartref a adeiledir o'r newydd" a "datblygwr". Mae diwygiadau i'r cymal wedi ychwanegu diffiniad o "buddiant perthnasol" ac wedi dileu cyfeiriadau at "in England" i adlewyrchu'r newid yng nghwmpas y Bil a'r ffaith y bydd y cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn gymwys yng Nghymru a'r Alban.

32. Ym mharagraff 28 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn datgan bod diwygiad pellach i gymal 131 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu disgrifiadau ychwanegol o bwy sy'n ddatblygwr yng Nghymru. Cyn gwneud rheoliadau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdodau cenedlaethol perthnasol eraill.

33. At hynny, mae cymal newydd a ychwanegwyd at y Bil yn darparu y gall rheoliadau a wneir o dan gymal 131 wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac y caiff wneud darpariaeth ganlyniadol. Mae paragraff 29 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi y bydd rheoliadau a wneir o dan gymal 131 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol.

Cymal 132: Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bersonau ymuno â'r cynllun a darparu gwybodaeth, a chymal 133: Cofrestr o aelodau

34. Mae cymal 132 yn gymal galluogi sy'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddod yn aelodau o'r cynllun Ombwdsmon

Cartrefi Newydd ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer sancsiynau sifil i'r rhai sy'n methu â gwneud hynny.

35. Mae paragraffau 30 i 32 ym Memorandwm Rhif 3 yn rhoi manylion ynghylch diwygiadau i gymal 132. Ym mharagraff 32, mae'r Gweinidog yn nodi, o ganlyniad i'r diwygiadau, fod y cymal bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru (a'r Alban) cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan gymal 132.

36. Mae paragraff 33 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi manylion cymal 133, sy'n nodi'r gofynion i gadw cofrestr o aelodau'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd.

Cymal 134: Cod ymarfer i ddatblygwyr

37. Mae cymal 134 hefyd yn ddarpariaeth alluogi sy'n darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi neu gymeradwyo cod ymarfer ynghylch y safonau ymddygiad a'r safonau o ran ansawdd gwaith a ddisgwyllir gan aelodau o'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd.

38. Ym mharagraff 35 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn nodi bod y diwygiad i gymal 134 yn gwneud darpariaeth i ymgynghori â Gweinidogion Cymru (a'r Alban) mewn perthynas â chymeradwyo, cyhoeddi, diwygio neu ddisodli'r cod.

Cymal newydd: Gwelliant i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

39. Mae cymal newydd a ychwanegwyd at y Bil yn gwneud diwygiad i Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006") i ychwanegu'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd at y rhestr o gyrff trawsffiniol ym mharagraff 10(2) o'r Atodlen honno. Mae paragraff 36 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi bod hyn yn golygu "nad yw'n ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad cyn dileu neu addasu swyddogaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd".

Cymal 148: Cychwyn a Darpariaeth Drosiannol

40. Mae cymal 148 (cymal 146 gynt), sy'n gwneud darpariaeth cychwyn a darpariaeth drosiannol, wedi'i ddiwygio fel bod cymal 127 (cymal 125 gynt, ynghylch dyletswyddau sy'n ymwneud â gwaith i anheddau) yn dod i rym ddau fis ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

41. O ran darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn y Bil, ym mharagraffau 38 a 39 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Mae cymal 148(5) yn darparu ar gyfer cychwyn darpariaethau'r
Ombwdsmon Cartrefi Newydd. Felly, bydd darpariaethau'r Ombwdsmon*

Cartrefi Newydd yn dod i rym ar ddyddiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

O ystyried y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am sefydlu'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd, mae'n ymarferol ac yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gychwyn darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd.

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan gymal 131(6)(b) i ychwanegu at y diffiniad o "ddatblygwr", ond gan fod diffiniad eisoes wedi'i gynnwys yn y Bil nid oes angen gwneud y rheoliadau hyn cyn cychwyn darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd. Felly, nid yw hyn yn effeithio ar y farn ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gychwyn darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd."

Rhesymau Llywodraeth Cymru dros geisio gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil mewn perthynas â'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd

42. Ym mharagraffau 42 i 48 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn nodi ei rhesymu dros geisio ymestyn darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn y Bil i Gymru. I grynhoi, mae'r rhesymau a restrir yn cynnwys:

- bydd mwy o werth i'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd os yw'n gynllun trawsffiniol (paragraff 42, Memorandwm Rhif 3);
- bydd cynllun trawsffiniol yn sicrhau dull safonol, a weithredir ar un adeg mewn amser (paragraff 42, Memorandwm Rhif 3);
- bydd cymhwyso'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd i Gymru o fudd o ran cost ac amseru (paragraff 42, Memorandwm Rhif 3);
- gan fod datblygwyr yn aml yn gweithio ar draws gwahanol rannau o'r DU, mae'n debygol y byddai'n well ganddynt gael un system i weithio â hi (paragraff 46, Memorandwm Rhif 3);
- gall darparwyr gwarant ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr berthyn i un cod ymarfer (paragraff 46, Memorandwm Rhif 3).

43. Mae'r Gweinidog yn nodi y "gallai Cymru ddatblygu cynllun amgen, ar ei chost ei hun".¹⁰ Ym mharagraff 48 o Femorandwm Rhif 3 mae'r Gweinidog hefyd yn nodi:

"Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn, ac felly byddai gennym yr opsiwn i greu ein proses gwneud iawn ein hunain drwy ddeddfwriaeth y Senedd pe bawn yn teimlo nad yw cynllun yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn gweithio i Gymru. Fodd bynnag, gan na fydd yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn awdurdod datganoledig i Gymru, byddai angen cydsyniad Gweinidog priodol Llywodraeth y DU arnom i ddileu swyddogaethau o'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd. Byddai gofod gofyn am gydsyniad o'r fath yn cael effaith negyddol ar gymhwysedd y Senedd."

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4)

Memorandwm Rhif 4

44. Ar 22 Chwefror 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 4¹¹) mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae rhifau cymalau (ac Atodlenni) y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd o Dŷ'r Cyffredin.¹²

Newidiadau i'r Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 3

45. Mae paragraffau 6 i 16 ym Memorandwm Rhif 4 yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Bil ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 3, ac yn cynnwys safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Newidiadau i gymal 41: Rheoleiddio'r proffesiwn rheoli adeiladu, a rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru

46. Mae paragraffau 7, 8 a 16 ym Memorandwm Rhif 4 yn rhoi manylion am y diwygiadau i gymal 41 a sefyllfa gyfatebol Llywodraeth Cymru.

47. Yn ôl paragraff 7 o Femorandwm Rhif 4:

¹⁰ Memorandwm Rhif 3, paragraff 46

¹¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), Bil Diogelwch Adeiladau, Chwefror 2022

¹² Bil Diogelwch Adeiladau (Bil Tŷ'r Arglwyddi 98)

"Mae'r gwelliant terfynol¹³ yn darparu y gall awdurdodau rheoleiddio o dan Ran 2A newydd arfaethedig Deddf Adeiladu 1984 (y rheoleiddiwr diogelwch adeiladu mewn perthynas â Lloegr a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru) rannu gwybodaeth â'i gilydd at ddibenion eu priod swyddogaethau o dan y Rhan honno."

48. Ym Memorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog hefyd yn nodi bod tri "diwygiad canlyniadol" arall a gyflwynwyd i gymal 41 o'r Bil a chymal newydd arall yn ymwneud â chais y Goron¹⁴ i gyd yn gysylltiedig â'r diben o sicrhau bod darpariaethau rhannu gwybodaeth yn gymwys i berson y mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo swyddogaethau cofrestru iddo fel y mae'n gymwys i Weinidogion Cymru.¹⁵

49. Mae'r Gweinidog yn nodi y bydd y darpariaethau ar rannu gwybodaeth yn helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Bil "drwy ddarparu mwy o dystiolaeth ar feysydd fel cynyddu diogelwch a chymhwysedd o fewn diwydiant".¹⁶

Newidiadau i Atodlen 5: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn cysylltiad â Rhan 3 o'r Bil, a rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru

50. Mae paragraffau 9, 10 a 16 ym Memorandwm Rhif 4 yn rhoi manylion am nifer o ddiwygiadau i Atodlen 5 a sefyllfa gyfatebol Llywodraeth Cymru.

51. Mae Memorandwm Rhif 4 yn nodi bod un gwelliant¹⁷ yn gwneud newidiadau i adran 56(3) o Ddeddf 1984 o ganlyniad i baragraff 20 o Atodlen 5 i'r Bil a fydd yn diddymu adran 16 o Ddeddf 1984.¹⁸

¹³ Bil Diogelwch Adeiladau: Rhestr o Welliannau wedi'u didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor, 7 Chwefror 2022 – gwelliant 22

¹⁴ Bil Diogelwch Adeiladau: Rhestr o Welliannau wedi'u didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor, 7 Chwefror 2022 – gwelliannau 18-20 a 41

¹⁵ Memorandwm Rhif 4, paragraff 8

¹⁶ Memorandwm Rhif 4, paragraff 16

¹⁷ Bil Diogelwch Adeiladau: Rhestr o Welliannau wedi'u didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor, 7 Chwefror 2022 – gwelliant 26

¹⁸ Memorandwm Rhif 4, paragraff 9

52. Ym mharagraff 10 o Femorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn nodi bod dau ddiwygiad arall¹⁹ i Atodlen 5 yn ganlyniadol i'r diwygiadau a wnaed i gymal 41 o'r Bil.

Cymalau newydd: Atebolrwydd am fethu â chydymffurfio â gofynion cynnyrch adeiladu, Atebolrwydd sy'n ymwneud â chynhyrchion cladin, ac Atebolrwydd am fethiant sy'n ymwneud â chynhyrchion adeiladu: cyfyngiad; a rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru, a newidiadau i gymal 142: Cychwyn a darpariaeth drosiannol

53. Mae paragraffau 11 i 14 o Femorandwm Rhif 4 yn rhoi manylion ynghylch tri chymal newydd²⁰ a ychwanegwyd at y Bil sy'n ymwneud â'r canlynol:

- atebolrwydd am fethu â chydymffurfio â gofynion cynnyrch adeiladu;
- atebolrwydd sy'n ymwneud â chynhyrchion cladin; ac
- atebolrwydd am fethiant sy'n ymwneud â chynhyrchion adeiladu: cyfyngiad.

54. Mae paragraff 15 o Femorandwm Rhif 4 hefyd yn rhoi manylion am ddiwygiad perthnasol i gymal 142 sy'n darparu bod y cymal newydd sy'n ymwneud ag atebolrwydd am fethu â chydymffurfio â gofynion cynnyrch adeiladu yn dod i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

55. Ym mharagraff 16 o Femorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn amlinellu ei safbwyntiau o ran y gwelliannau hyn. Mae'r Gweinidog yn nodi'r canlynol:

"Bydd y darpariaethau ar gyfer cynhyrchion adeiladu, gan gynnwys cladin, yn cyflwyno atebolrwydd sifil gwell am gynhyrchion adeiladu a fydd yn caniatáu i gynhyrchwyr, cyflenwyr a datblygwyr cynnyrch adeiladu sydd wedi cymryd rhan mewn ymddygiadau anfad, ac sy'n parhau i gymryd rhan ynddynt, gael eu dal yn atebol am ganlyniadau'r ymddygiad hwn. Bydd yn ehangu'r gronfa o bartion posibl y gellir mynd ar eu hôl, gan gynyddu gallu rhydd-ddeiliaid a lesddeiliaid i gael tegwch. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau bod pob parti sy'n creu diffygion adeiladu yn gorfod talu costau i'w cywiro. Bydd y newid hwn hefyd yn sicrhau bod gan berchnogion/lesddeiliaid adeiladau hawliau gweithredu cyfartal i'r rhai yn Lloegr."

¹⁹ Bil Diogelwch Adeiladau: Rhestr o Welliannau wedi'u didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor, 7 Chwefror 2022 – gwelliannau 28 a 29

²⁰ Bil Diogelwch Adeiladau: Rhestr o Welliannau wedi'u didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor, 7 Chwefror 2022 – gwelliannau 107-109

Diweddariad ar safbwynt cyffredinol Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2

56. Ym Memorandwm Rhif 3, a osodwyd gerbron y Senedd ar 20 Ionawr 2022, mae'r Gweinidog yn nodi'r canlynol:

"Yn fy marn i, mae'n briodol i ddarpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd a Deddf Mangreuedd Diffygiol 1972 yn y Bil fod yn gymwys i Gymru. (...)

*Felly, rwy'n argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydysyniad."*²¹

57. Ym Memorandwm Rhif 4, a osodwyd gerbron y Senedd ar 22 Chwefror 2022, mae'r Gweinidog yn mynd ymlaen i ddweud:

"Yn fy marn i, mae'n briodol i'r gwelliannau yn [Memorandwm Rhif 4] fod yn gymwys i Gymru. Mae rhai darpariaethau'n ganlyniadol i'r darpariaethau presennol a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol ac yn gwella gweithrediad y system megis rhannu gwybodaeth, neu ddirprwyo. (...)

*Credaf mai'r Bil hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol i'r darpariaethau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl. Felly, rwy'n argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei gydsyniad."*²²

²¹ Memorandwm Rhif 3, paragraff 55

²² Memorandwm Rhif 4, paragraff 18

2. Trafodaeth y Pwyllgor

58. Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 14 Chwefror 2022²³, a Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 7 Mawrth 2022.²⁴

59. Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 14 Mawrth 2022.²⁵

Ein barn ni

Sylwadau cyffredinol

60. Nodwn safbwynt y Gweinidog fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4 mewn perthynas â diwygiadau a wnaed i'r Bil sy'n berthnasol i ddiben datganoledig.

Casgliad 1. Cytunwn ag asesiad y Gweinidog a bod yr holl gymalau a gwelliannau a restrir yn y Memoranda yn ymwneud â diben datganoledig.

61. Nodwn hefyd resymau'r Gweinidog dros wneud darpariaeth bellach i Gymru yng nghymalau 41, 128 i 134, 142, 148, Atodlen 5, Atodlen 8, ynghyd â phedwar cymal newydd ac un Atodlen newydd, a mynegir ein barn yn fanylach yn y paragraffau a ganlyn.

62. Yn ein hadroddiad cyntaf, mynegwyd pryderon gennym ynghylch dull y Gweinidog o ddefnyddio Bil y DU i wneud darpariaeth ar gyfer Cymru. Wrth wneud hynny, gwnaethom dynnu sylw at egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU²⁶, sy'n datgan mai'r brif egwyddor yw y dylai deddfwriaeth sylfaenol sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd.

63. Yn benodol, ym mharagraffau 24 i 32 yn ein hadroddiad cyntaf, sy'n cynnwys casgliadau 2 i 4 ac argymhelliad 2, trafodwyd yn helaeth ein hasesiad o ddull y Gweinidog o ddefnyddio'r Bil a'r hyn a ystyriwn yn risgiau cysylltiedig. Roedd Argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Gweinidog roi asesiad llawn a manwl o'i safbwynt mai cyfyngedig yw goblygiadau cyfansoddiadol cronrus y weithred o ofyn i Lywodraeth y DU a chaniatáu i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd cwbl ddatganoledig o fewn ei chylch gorchwyl.

²³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Chwefror 2022

²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Mawrth 2022

²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Mawrth 2022

²⁶ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Hydref 2021

64. Er ein bod yn cydnabod ymateb amserol y Gweinidog i'n hadroddiad cyntaf, nid ydym yn rhannu'r un farn nad oes unrhyw oblygiadau cyfansoddiadol cronus o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil. Nid ydym ychwaith o'r farn bod y darpariaethau'n rhai "hunangynhwysol sy'n sefyll ar eu pen eu hunain".²⁷

65. Yng nghasgliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith ein bod yn benderfynol o fonitro'r defnydd o Filiau'r DU i gyflwyno cyfraith i Gymru a'r effaith gronus ar y Senedd ac ar ddatganoli.

66. Nodwn fod y Gweinidog, unwaith eto, wedi gofyn i fwy o ddarpariaethau yn y Bil gael eu gwneud yn gymwys i Gymru yn ystod y cyfnodau diwygio wrth i'r Bil fynd drwy Senedd y DU.

67. O ran ymestyn darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd i Gymru, nid ydym yn glir pam y dylid gofyn i'r Senedd drosglwyddo pwerau i Lywodraeth y DU, sy'n gallu llunio'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn unol â'i hanghenion a'i dymuniadau ei hun (gweler hefyd baragraff 85).

68. Nodwn fod y Gweinidog, wrth amlinellu'r rhesymau dros ymestyn darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn y Bil i Gymru, ym Memorandwm Rhif 3 yn cynnig y cyfiawnhad a ganlyn:

- bydd gan gynllun fel y cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd fwy o werth "os yw'n gynllun trawsffiniol";
- "[b]ydd cymhwyso'r cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd i Gymru hefyd o fudd o ran cost ac amseru";
- mae'n debygol y byddai'n well gan ddatblygwyr "gael un system i weithio â hi fel nad oes yn rhaid iddynt lywio cynlluniau ar wahân mewn gwahanol rannau o'r DU"; a
- "gall darparwyr gwarant ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr berthyn i un cod hyd yn oed pe na bai darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn cael eu hymestyn i Gymru".²⁸

69. Er ein bod yn fwriadol yn peidio â gwneud sylwadau ar oblygiadau polisi cynigion deddfwriaethol ac yn parchu barn pwyllgorau perthnasol eraill y Senedd, yn ein barn ni, nid yw rhesymu o'r fath yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a ffeithiol bod pedair gwlad ddatganoledig

²⁷ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 4 Ionawr 2022, ymateb i argymhelliad 2

²⁸ Memorandwm Rhif 3, paragraffau 42 a 46

yn ffurfio'r Deyrnas Unedig, ac y gall pob un ohonynt ddeddfu yn unol â'i setliad, fel y dylai gwneud.

70. At hynny, nid yw'n ymddangos i ni fod datganiadau'r Gweinidog bod datblygwyr yn 'debygol' o ffafrio un system ac y 'gallai' darparwyr gwarant wneud gofynion penodol yn ddatganiadau a ddylai fod yn sail ar gyfer defnyddio Bil y DU.

71. Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i ailadrodd y pwyntiau a wnaethom yn argymhellion 3 a 4 yn ein hadroddiad cyntaf. O ran y materion hyn, nid yw ein safbwynt wedi newid.

72. Ni wnaeth y Gweinidog fynd i'r afael â phob pwynt (fel y gofynnwyd) wrth ymateb i argymhelliad 3 yn ein hadroddiad cyntaf, a oedd yn ymwneud â dyrannu adnoddau yn ei hadran. Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud y canlynol:

*"Nid oes cymhariaeth rhwng yr adnoddau a dreulir i ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU a'r adnoddau sylweddol sydd eu hangen i sefydlu tîm ar gyfer Bil Senedd sy'n cystadlu â blaenoriaethau deddfwriaeth a pholisi eraill."*²⁹

73. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi o hyd gan benderfyniad y Gweinidog i ddyrannu adnoddau i gefnogi'r broses o ddatblygu a phasio Bil y DU drwy Senedd y DU yn hytrach na chyflwyno Bil i Gymru i'n Senedd.

74. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol ein bod yn pryderu'n fawr am allu Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, ac rydym yn mynd ar drywydd y mater hwn ar draws Llywodraeth Cymru.

75. Roedd argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf hefyd yn tynnu sylw at y diffyg eglurder ynghylch sut y mae gofyn am ddarpariaethau i Gymru mewn Bil y DU yn ogystal â chynllunio ar gyfer Bil i Gymru yn y dyfodol i fynd i'r â materion eraill sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella ansawdd a hygyrchedd cyfraith ddwyieithog Cymru.

76. Rydym yn cydnabod yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud wrthym ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth ddwyieithog a allai ddeillio o'r Bil. Fodd bynnag, credwn mai dim ond ychwanegu at lyfr statud sydd eisoes yn gymhleth y mae hyn yn ei wneud. Mae hyn yn anffodus,

²⁹ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 4 Ionawr 2022, ymateb i argymhelliad 2

a dweud y lleiaf, o ystyried y dyletswyddau newydd a osodwyd ar Weinidogion Cymru a ddaeth i rym y llynedd i gyhwyn camau a fydd yn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.³⁰

77. Mae gennym bryderon hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi colli cyfle arall i ddefnyddio'r system gyfiawnder sydd gennym eisoes yng Nghymru i fynd i'r afael â materion o'r fath y gallai'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd ymdrin â hwy. Wrth fynegi'r farn hon, rydym yn ymwybodol bod y Cwnsler Cyffredinol wedi siarad o blaid y cynigion diweddar ar driwilysoedd datganoledig yng Nghymru gan Gomisiwn y Gyfraith³¹, yn enwedig o ran yr angen i osgoi creu cyrff a threfniadau gweinyddol cwbl newydd.³²

78. Hoffem hefyd dynnu sylw at fater a nodir uchod ym mharagraff 43. Ym Memorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn nodi pe bai teimlad nad oedd y cynllun Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn gweithio i Gymru, y byddai gan Lywodraeth Cymru yr opsiwn i greu mecanwaith gwneud iawn sy'n benodol i Gymru drwy Fil gan y Senedd. Nodwn fod y Gweinidog yn mynd yn ei flaen i nodi "gan na fydd yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn awdurdod datganoledig i Gymru, byddai angen cydsyniad Gweinidog priodol Llywodraeth y DU arnom i ddileu swyddogaethau o'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd". Nodwn hefyd fod y Gweinidog yn ychwanegu y "[b]yddai gorfod gofyn am gydsyniad o'r fath yn cael effaith negyddol ar gymhwysedd y Senedd", sydd wedi'i osgoi drwy ddiwygio'r Bil i'r perwyl y bydd yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn cael ei restru fel corff trawsffiniol yn Atodlen 7B i Ddeddf 2006.

79. Mae'r mater hwn yn codi dau fater y mae angen eglurhad ac eglurder pellach arnynt.

80. Yn gyntaf, rydym yn cytuno ag asesiad y Gweinidog y byddai angen cydsyniad Gweinidog y Goron ar Weinidogion Cymru i addasu swyddogaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn y dyfodol, pe na bai gwelliant i Atodlen 7B i Ddeddf 2006 wedi'i gytuno. Fodd bynnag, mae'r senario hwn yn seiliedig ar y ffaith bod Gweinidogion Cymru wedi optio i mewn i'r Ombwdsmon drwy ddefnyddio'r Bil yn hytrach na chyflwyno Bil yn y Senedd. Er ein bod yn cydnabod yr angen am y gwelliant hwn, ni fyddai wedi bod yn angenrheidiol pe bai Bil i Gymru wedi'i gyflwyno. Credwn y gellid ac y dylid bod wedi rhoi esboniad a chyd-destun pellach ym mharagraff 48 o Femorandwm Rhif 3.

81. At hynny, ac o ran datganiad y Gweinidog y byddai gorfod ceisio caniatâd o'r fath yn cael "effaith negyddol" ar gymhwysedd y Senedd, nid ydym yn glir ynghylch union ystyr datganiad y Gweinidog. Er enghraifft, a yw'r Gweinidog o'r farn y byddai ceisio caniatâd o'r fath yn ei

³⁰ *Deddf Deddfwriaethol (Cymru) 2019, Rhan 1*

³¹ *Comisiwn y Gyfraith – Adroddiad Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru*, Rhagfyr 2021

³² *Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru*, 9 Rhagfyr 2021

ddileu'n barhaol o gymhwysedd y Senedd fel y'i nodir yn Neddf 2006, ac felly'n lleihau ei chymhwysedd?

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, roi esboniad pellach a llawn o ran y datganiadau a wnaed ym mharagraff 48 o Femorandwm Rhif 3, a mynd i'r afael yn benodol â'n pryderon ym mharagraffau 80 ac 81 o'n hadroddiad.

82. Manteisiwn ar y cyfle i ailadrodd y safbwyntiau a fynegwyd gennym yn ein hadroddiad cyntaf, a byddem unwaith eto'n herio'r Gweinidog ar ei rhesymu dros fabwysiadu'r dull hwn.

83. Rydym yn anghytuno'n barchus â phenderfyniad cyffredinol y Gweinidog i ddefnyddio Bil y DU i fynd i'r afael â diogelwch adeiladau yng Nghymru. Ni ddylai pa asesiadau bynnag a gynhaliwyd o ran manteision ymarferol cyfleoedd o'r fath fod yn fwy na mandad democrataidd y Senedd, ac atebolrwydd Llywodraeth Cymru i'r Senedd o ganlyniad i hynny.

Casgliad 2. Rydym yn parhau i bryderu'n fawr am ddull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio Biliau'r DU mor helaeth i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.

84. Nodwn fod un o'r cymalau diwygiedig (cymal 131) a restrir ym Memorandwm Rhif 3, y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer, yn rhoi pŵer newydd i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod nifer o'r darpariaethau perthnasol a nodir ym Memorandwm Rhif 3 yn cynnwys pwerau dirprwyedig i'r Ysgrifennydd Gwladol.

85. Nodwn hefyd fod nifer o welliannau wedi'u gwneud i'r Bil sy'n golygu y bydd gan Weinidogion Cymru rôl ymgynghorol cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer rhai pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn gymwys i reoliadau sydd i'w gwneud o dan gymalau 129, 131, 132, a 134 sy'n ymwneud â *Deddf Mangreoedd Diffygiol 1972* a darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd.

Casgliad 3. Nid ydym o'r farn ei bod yn ddigonol nac yn briodol na fydd gan y Senedd (na Gweinidogion Cymru) rôl ffurfiol cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi a chymeradwyo cod ymarfer ynghylch y safonau ymddygiad ac ansawdd y gwaith a ddisgwylir gan aelodau o gynllun yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd.

Casgliad 4. Fel y nodwyd gennym mewn llawer o adroddiadau eraill ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU, nid yw rôl i Weinidogion Cymru – boed hynny'n rôl ymgynghorol neu gydsyniol – cyn i un o Weinidogion y DU arfer pŵer i wneud rheoliadau a gynhwysir mewn Bil y DU yn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd cynhenid sy'n

golygu bod y Senedd wedi'i heithrio rhag llunio a chytuno i gyfraith a fydd yn gymwys yng Nghymru.

86. Rydym yn cydnabod bod un ddarpariaeth newydd (cymal newydd a fewnosodwyd ar ôl cymal 134), a nodir ym Memorandwm Rhif 3, yn addasu cymhwysedd y Senedd, i'r perwyl bod yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn cael ei ychwanegu at y rhestr o gyrff trawsffiniol yn Atodlen 7B i Ddeddf 2006 fel na fyddai'n ofynnol i'r Senedd, yn y dyfodol, gael cydsyniad Gweinidog y Goron cyn addasu'r swyddogaethau'r Ombwdsmon.

87. Roedd Argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Gweinidog geisio diwygiadau i'r Bil i sicrhau bod Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â'r darpariaethau ar gyfer Cymru, yn cael pwerau cychwyn sy'n cyfateb i'r rhai a roddwyd eisoes i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel bod Gweinidogion Cymru yn llwyr reoli pryd y daw'r darpariaethau ar gyfer Cymru i rym. Rydym yn siomedig ag ymateb y Gweinidog i'r argymhelliad hwnnw gan nad yw'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol ac ni fyddai'n mynd ar drywydd gwelliannau o'r fath.³³ Nid ydym yn credu bod ildio rheolaeth dros hyn yn briodol.

88. Nodwn fod gwelliant newydd i gymal 148 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gychwyn y darpariaethau newydd mewn perthynas â'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd. Yn unol â'n casgliadau blaenorol a'r hyn rydym wedi'i argymhell o'r blaen, rydym yn siomedig â'r farn a fynegwyd gan y Gweinidog ym Memorandwm Rhif 3 ei bod yn "ymarferol ac yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gychwyn darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd".³⁴

89. Mae ein sylw terfynol yn ymwneud ag ansawdd Memorandwm Rhif 4 a thryloywder y wybodaeth bwysig sydd ynddi. Er enghraifft, yn ein barn ni, nid yw'n ddigonol nac yn briodol nodi mewn perthynas â chymal 41 y "gwelliant terfynol" pan nad yw'r cyd-destun yn glir. Yn yr enghraifft hon, er ein bod yn tybio bod y Gweinidog yn cyfeirio at y gwelliant terfynol a gyflwynwyd i gymal 41 ar 14 Chwefror 2022, dylid egluro'r ffaith hon.

Argymhelliad 2. Unwaith eto, gofynnwn i'r Gweinidog, a holl Weinidogion Cymru, sicrhau bod memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir gerbron y Senedd yn cynnwys gwybodaeth lawn, gywir a thryloyw, ac yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.

³³ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 4 Ionawr 2022, ymateb i argymhelliad 2

³⁴ Memorandwm Rhif 3, paragraff 24
